COFNODION HEB EU CADARNHAU O GYFARFOD CAËEDIG YMDDIRIEDOLAETH GIG GWASANAETHAU AMBIWLANS CYMRU A GYNHALIWYD DYDD GWENER 23 IONAWR 2015, YN NHŶ PWYNT VANTAGE, CWMBRÂN

AELODAU'R BWRDD YN BRESENNOL:

Mick Giannasi	Cadeirydd y Bwrdd
Tracy Myhill	Prif Weithredwr Interim
Mike Collins	Cyfarwyddwr Gweithrediadau
Mike Coupe	Cyfarwyddwr Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad
Emrys Davies	Cyfarwyddwr Anweithredol
Kevin Davies	Cyfarwyddwr Anweithredol
Judith Hardisty	Cyfarwyddwraig Gweithlu a Datblygu Cyfundrefnol
Sara Jones	Cyfarwyddwraig Ansawdd a Nyrsio
John Morgan	Cyfarwyddwr Anweithredol ac Is-gadeirydd
James Mycroft	Cyfarwyddwr Anweithredol
Patsy Roseblade	Cyfarwyddwraig Cyllid ac ICT
Martin Woodford	Cyfarwyddwr Anweithredol

CYNRYCHIOLWYR AR FWRDD YR YMDDIRIEDOLAETH:

Nigel Heal	Cynrychiolydd Staff (RCN)
Michael Jose	Cynrychiolydd Staff (UNSAIN)
Nick Morgan	Cynrychiolydd Staff (GMB)
Steve Owen	Swyddog Rheolaeth Gorfforaethol
Dawn Sharp	Ysgrifennydd Corfforaethol

APOLOGIES

Pam Hall	Cyfarwyddwraig Anweithredol
Nathan Holman	Cynrychiolydd Staff (GMB)
Brendan Lloyd	Cyfarwyddwr Meddygol
Bleddyn Roberts	Cynrychiolydd Staff (UNITE)
David Scott	Cyfarwyddwr Anweithredol

ARSYLLWYR

Hannah Crowney	Hyfforddai Rheolaeth WAST

01/15 MATERION GWEITHDREFNOL

PENDERFYNWYD:

(1) Nodi datganiad sefydlog Mr Emrys Davies fel aelod wedi ymddeol o UNITE; a

(2) Chadarnhau'r drefnlen o wybodaeth gyfrinachol/ a eithriwyd ac a echdynnwyd o Gofnodion 19 Tachwedd 2014 y Bwrdd am Gofnod 32/14, fel cofnod cywir.

02/15 RHAGLEN CYFATHREBU SYMUDOL GWASANAETHAU BRYS (ESMCP)

Cyflwynodd y Gyfarwyddwraig Cyllid ac ICT, Patsy Roseblade adroddiad oedd yn amlinellu gofynion yr adnoddau presennol a'r dyfodol i gefnogi gweithredu ESMCP yn effeithlon a'i lif gwaith cysylltiol.

Roedd y Swyddfa Gartref yn arwain ar amnewid yr holl rwydwaith sef y cytundeb Airwave ond roedd rhan o'r cytundeb hwnnw o fewn y system bresennol ac yn cynnwys yr ystafell reoli a swyddogaethau cerbydau ac roedd hyn yn cael ei arwain gan yr Adran Iechyd. Nododd y Bwrdd fod risgiau'r gwasanaeth yn gorffwys ar yr Ymddiriedolaeth.

Croesawodd Cadeirydd y Bwrdd sylwadau gan Aelodau a chadarnhawyd y materion canlynol:-

- Bod angen mewnbwn oddi wrth y Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau.
- Cadarnhad bod Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS) yn cael gwybodaeth gyson am ddatblygiadau.
- Sicrwydd mai hwn oedd yr ateb cywir o safbwynt gofynion yr Ymddiriedolaeth. Hefyd, o safbwynt diweddariadau technegol i'r system yn y dyfodol - mae'n bosibl i hyn gael ei gyflawni o bell, ac felly osgoi gorfod cadw cerbydau oddi ar y ffordd.

PENDERFYNWYD:

(1) Nodi cynnwys y briffio; a

(2) Chefnogi'r dull oedd yn cael ei gymryd a'r gofyn am adnoddau presennol ac yn y dyfodol i gefnogi gweithredu ESMCP yn llwyddiannus a'i lif gwaith cysylltiol.

03/15 GORSAF AMBIWLANS TREFFYNNON

Cyflwynodd y Gyfarwyddwraig Cyllid ac ICT, Patsy Roseblade, adroddiad a rhoddodd ddisgrifiad i'r Aelodau o Bwynt Adleoli Cymdeithasol (SDP).

PENDERFYNWYD:

(1) Nodi gwaredu Gorsaf Ambiwlans Treffynnon ar 31 Ionawr; a

(2) Chyflwyno prydles SDP Treffynnon i'r Prif Weithredwr i'w weithredu ar ran yr Ymddiriedolaeth.

04/15 ADNEWYDDU'R BRYDLES – GORSAF AMBIWLANS DWYRAIN CAERDYDD

Cyflwynodd y Gyfarwyddwraig Cyllid ac ICT, Patsy Roseblade, yr adroddiad.

PENDERFYNWYD: bod y Bwrdd yn cymeradwyo adnewyddu prydles Gorsaf Ambiwlans Dwyrain Caerdydd ar delerau sydd wedi'u cytuno gan Wasanaethau Ystadau Arbenigol NWSSP.

05/15 GWEITHREDU CONTRACT GWAITH – GORSAF AMBIWLANS BARGOED

Cyflwynodd y Gyfarwyddwraig Cyllid ac ICT drosolwg i'r Aelodau ac ychwanegodd fod y gwaith wedi dechrau'n barod a bod hyn felly'n gais adolygol.

PENDERFYNWYD: cyflwyno'r contract adolygol am waith yng Ngorsaf Ambiwlans Bargoed i'r Prif Weithredwr i'w weithredu fel gweithred ar ran yr Ymddiriedolaeth.

06/15 PRIF WEITHREDWR PRESENNOL YN RHOI'R GORAU I'W SWYDD DRWY GYTUNDEB Y DDWY OCHR AC APWYNTIO PRIF WEITHREDWR INTERIM

Cyfeiriodd Cadeirydd y Bwrdd, Mick Giannasi, yr Aelodau at benderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ar 11 Rhagfyr 2014 oedd wedi derbyn cofnod cyfunol yn egluro'r manylion. Dywedodd wrth yr Aelodau am y broses oedd wedi'i chyflawni yn dilyn Elwyn Price-Morris yn rhoi'r gorau i'w swydd a phenodiad dilynol y Prif Weithredwr Interim, Tracy Myhill.

PENDERFYNWYD:

(1) Cadarnhau penderfyniad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth fel yr amlinellwyd.

(2) Nodi'r sefyllfa bresennol o safbwynt iechyd a statws cyflogaeth Mr E Price-Morris.

07/15 LLETYA GWASANAETH 111 - MYNEGIANT O DDIDDORDEB

Cyflwynodd y Gyfarwyddwraig Ansawdd a Nyrsio, Sara Jones, adroddiad ar lafar ar y sefyllfa bresennol am 111. Dywedodd y Gyfarwyddwraig wrth y Bwrdd y byddai'r tair Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru'n derbyn llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru'n fuan yn gofyn am fynegiant o ddiddordeb i letya gwasanaeth 111.

Roedd y Cyfarwyddwr yn gofyn am gadarnhad gan y Bwrdd y dylid cyflwyno mynegiant o ddiddordeb i letya'r gwasanaeth.

PENDERFYNWYD: bod yr Ymddiriedolaeth yn ymateb yn bositif i'r llythyr ar ôl ei dderbyn a mynegodd ddiddordeb i letya'r gwasanaeth 111.